CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD MISOL
31.03.2011 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS
LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD A GWEDDI AGORAIDAOL

Estynnwyd croeso i bawb gan y Maer Rob Phillips. Offrymwyd gweddi gan y Cyngh. Chris Thomas. Mynegwyd cydymdeimlad yr Aelodau â'r Gyngh. Cecilia Barton yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr. Bu i aelodau gadw munud o osteg fel parch i'r diweddar Mr Ian Barton.
YN BRESENNOL:Y Maer Rob Phillips (Cadeirydd); Robert (Hag) Harris (Dirprwy-Faer); Cecilia Barton; Andrew Carter; John Davies; Margaret Davies-Evans; Greg Evans; K. Ramaya; Chris Thomas; Selwyn Walters; Dorothy Williams & Derek Wilson.

Yr Heddlu
Y Plismon Richard Marshall
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones
Un myfyriwr: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Wasg: Hannah Smith; Carl Stringer
Lizzie James (tan ddiwedd yr anerchiad RAY Ceredigion)
Cathryn Morgan (tan ddiwedd yr anerchiad RAY Ceredigion)
Iris Newman (tan ddiwedd y drafodaeth yn ymwneud â mudiad y Sgowtiaid)

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Digwyddiadau diweddar:

2.1 **Bwrgleriaethau masnachol** a domestig a'r bygythiad o'r defnydd o arfau.

2.2 **Troseddau'n gysylltiedig** â chyffuriau gan gynnwys cipio cannabis.

2.3 **Ffenestri'r Ysgol wedi eu difrodi;** y mae troseddwyr wedi eu dal.

Dywedodd y Plismon Marshall

2.4 **Cynhelir y Cyfarfod** nesaf o'r *Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd* (PACT) ar y 19eg o Ebrill am 5.30pm yng nghaffi'r *Hedyn Mwstard.*

2.5 **Bu i fyfyrwyr** Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant lwyfannu gwrthdystiad heddychlon ar Sgwâr Harford fel gwrthwynebiad i'r toriadau presennol.

3. Penderfynwyd gwahodd Meri Huws Dirprwy-Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref i drafod y posibilrwydd o golli swyddi a thoriadau cyllidebol. Bu i'r Coleg Y Drindod Dewi Sant dderbyn y toriad llymaf with gymharu â Phrifysgolion eraill Cymru sef 8.87%, yn y cytundeb cyllidebol diweddaraf gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

PENDERFYNWYD dechrau cyfarfod mis Ebrill am 7.00pm gan fod trefniadau wedi eu gwneud eisoes ar gyfer derbyn cyflwyniad gan yr Asiantaeth Amgylchedd.

4. **CYFLWYNIAD – RAY CEREDIGION – PROSIECT CHWARAE PLANT** (Cathryn Morgan Atodiad 1) Cynhaliwyd digwyddiad ar y 29.03.2011 sef lawnsiad o rownd dau, Prosiect Chwarae Plant **.** Roedd amserlen y dydd wedi cynnwys gwybodaeth parthed y "Prosiect Chwarae Plant Ceredigion o fewn y Cyd- destun Cenedlaethol"; "Edrych ar arfer da sef Prosiect Aberteifi – mae sesiynau chwarae mynediad agored misol yn Aberteifi wedi gostwng cwynion gan drigolion am ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan blant hyd at 90%"; "Ychwanegu at Leoedd Chwarae" – Persbectif Awdurdod Lleol- Plymouth" & "Ffilm byr wedi ei wneud gan blant a phobl ifanc Ponterwyd am y golled o le chwarae hoffus iawn a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny".

   Holiadur gan Ray Ceredigion yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref i ddarllen yr adroddiad ac i nodi ar bapur y cyfleusterau chwarae sydd ar gael yn Llambed. Bu i'r Dirprwy-Faer Hag Harris ymwneud â hyn ar ran y Cyngor Tref. Hefyd yn hysbysu'r Cyngor Tref am brosiect 4 Blynedd Chwarae Plant RAY Ceredigion a'r gwasanaeth chwarae teithiol ac arian i gynyddu mannau chwarae presennol.

   Y mae RAY Ceredigion wedi derbyn cymhorthdal i gynnal 2x2awr sesiwn chwarae yn fisol mewn dau fan yn Llambed, i ddechrau ar Ddydd Sul 17eg Ebrill am gyfnod o 6 mis. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at y mudiad yn caniatau defnydd o'r Cae Maesyderi a Pharc-yr-Orsedd at ddibenion y Cynllun Chwarae. Cynigiwyd y Cae Coffa/ Lle Chwarae Parc-y-Felin, fel safle posibl.

5. **TRAFODAETH – MRS IRIS NEWMAN – MUDIAD Y SGOWTIAID LLAMBED**

   Parthed cais am gymhorthdal i ymwneud â gwelliannau ynglŷn â Neuadd y Sgowtiaid. Amcanbris y gost £36,000; cyfanswm ar hyn o bryd £24,000. Bu i aelodau gymeradwyo ymdrechion y mudiad ond ni fedrent weld y ffordd yn glir i wneud cyfraniad arall, oherwydd rhoddion hael diweddar (£11,500 a £500 cyfraniadau ar ddechrau'r flwyddyn 2010).

   PENDERFYNWYD anfon llythyr o gefnogaeth parthed eu cais am gymhorthdal o dan y Cynllun Grant Cymunedol CSC (Cyngh. Hag Harris)

6. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU**

   6.1 **Dywedodd y Gyngh. Dorothy Williams bod ganddi fuddiant personol a sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 13.2.1 & 13.3.2** ar y cofnodion a bu iddi ymadael â'r ystafell. Cyflwynwyd cynigion, gan ei gŵr, yn ymwneud â thorri'r glaswellt ym Mharc-yr-Orsedd a Chynnal a Chadw'r Llwybrau Cerdded.

7. **CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 24ain o Chwefror 2011**

   Penderfynwyd llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 24ain o Chwefror a'u derbyn yn gofnod cywir.

8. MATERION SY'N CODI

8.1 SGWÂR HARFORD

8.1.1 CYTUNDEBAU-GWELLIANNAU (Dyddiau cau – 22.03.2011):
Ni ddaeth yr un datganiad o ddiddordeb i law. Y mae rôl y Cyngor Tref o fewn y prosiect (a gyflwynwyd gan y CSC) wedi ymroi i gyflogi cotractwyr i ymwneud â gwelliannau ar y Sgwâr, am bris yn is i'r trethdalwr ac i'r hyn a ofynnwyd gan y CSC (£10,250; £3,000 grant CSC; £7,250). Roedd rhai aelodau o'r farn fod crefftwyr lleol yn gyndyn i gyflwyno cynigion oherwydd y gofynion llym a osodir mewn lle gan y CSC ar gyfer darpar weithwyr ar eu heiddo. Yn nhŷb y Cyngh. Greg Evans dylai'r Cyngor Tref gau pen y mwdwl parthed y mater, gan mai methiant oedd yr ymgais i geisio contractwyr ar 2 achlysur, ac nid oedd y pris a hawliwyd gan y CSC yn opsiwn i'w hystyried yn wyneb y dirwasgiad economaidd presennol. Y mae CSC eisoes yn cynnal a chadw'r Sgwâr Harford drwy gyflawni tasgau arferol beunyddiol.

Bu i'r Dirprwy-Faer Hag Harris erfyn ar aelodau i beidio â rhoi'r ffidil yn y to, a dywedodd, gan mai cyfrifioldeb y CSC yw cynnal a chadw'r Sgwâr, addas a chyfiawn byddai, i'r Awdurdod hwn, i ymwneud â'r gwelliannau (ond nid i'r raddfa a grybwyllwyd ynghynt).

PENDERFYNWYD cysylltu â'r CSC i drafod ymhellach ac i geisio pris ar gyfer y gwaith, cyn trafod y ffordd ymlaen. (Y Maer Rob Phillips)

8.1.2 CYFRANIAD Y BANC HSBC
Y mae'r banc HSBC wedi gwirfoddoli £1,000 mewn amser ar gyfer glanhau'r cerrig palmant a'r gwaith cerrig ar dir sydd o ddiddordeb iddynt.

8.1.3. Y FFYNNON; glanhau'r tywodfaen, sef y rhan uchaf o'r Ffynnon: Derbyniwyd ateb gan CADW: ni ddylid lanhau'r Ffynnon am resymau esthetig. Mae'n holl bwysig y cyflawnir y gwaith gan berson profiadol, gan y gallai dulliau anaddas achosi difrod enfawr. **PENDERFYNWYD** peidio ag ymwneud â chynlluniau i lanhau'r Ffynnon (parthed y rhan isaf y gwaith-maen, o dan yr arysgrif- gofynnwyd i wirfoddolwyr y Banc HSBC i lanhau'r darn yma ond anhebygol yr ymdrinnir â'r gwaith gan mai eiddo'r Cyngor Sir yw'r Ffynnon).

8.2 Apêl y Cerrig Beddau; Cyfanswm a gasglwyd £151. PENDERFYNWYD cyflwyno'r arian i'r Canon Aled Williams, Ficer Eglwys San Pedr, Llambed. (Atodiad 2 – rhestr o'r cyfraniadau)

8.3 Disgo Ysgol Ffynnonbedr 14.04.2011: 1-3pm:Y mae trefniadau mewn llaw ar gyfer y lluniaeth (Cyngh. D.Williams); a hurio DJ sef Mr Harold Williams.

8.4 Taith Noddedig: Helpu'r Arwyr: (Romford i Lambed) o (dyddiad dechrau 22 Ebrill) i Sgwâr Harford, Llambed (4 Mai – 250 milltir). Nid yw'r 3 dyn ifainc sy'n cymryd rhan yn y weithgaredd, yn perthyn i uned filwrol. **PENDERFYNWYD;** yn ystod y cyfarfod diwethaf, y byddai dirprwyaeth o gynghorwyr yn eu croesawu ar ben eu taith ar Sgwâr Harford ar y 4ydd o Fai (oddeutu 1.00pm).

8.5 **Cyflwyniadau ar gyfer y CT: Asiantaeth Amgylchedd Cymru:** Helpu cymunedau i gynllunio a pharatoi'n well ar gyfer llifogydd: trefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r 28ain Ebrill. **Cymorth i Ofalwyr:** trefnwyd ar gyfer y cyfarfod misol o'r 26ain o Fai.

8.6 **Polyn wedi ei ddifrodi ar y Cwmins:** *Dim datlygiadau.*

8.7 **Cyfeirydd Ymwelwyr:** Dim datblygiadau oherwydd absenoldeb y Gyng. Elsie Dafis.

8.8 **Parti'r Penwythnos Fawr Y Pabi 10/11/1/2 Mehefin 2011:** Y Lleng Brydeinig: Boed i'r Gyngh. Dorothy Williams drafod y mater â chynrychiolwyr y Lleng Brydeinig, Cangen Llambed. Trefnir digwyddiad o bosibl, yn y dref.

9. GOHEBIAETH

9.1 **Llythyr o Ymddiswyddiad:** Y Gyngh. Lynda Mason-George-oherwydd obligiadau teuluol a gwaith, ac i gynnig y cyfle i unigolyn arall i wasanaethu ar Bwyllgor Y Cyngor Tref. Yn y llythyr diolchodd i aelodau am y caredigrwydd a'r cefnogaeth a ddangoswyd iddi yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf. Bu i aelodau nodi ei chyfraniad gwerthfawr yn ystod ei chyfnod ar y CT, a dymunwyd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol. Fel canlyniad i'w hymddiswyddiad, bodolir 2 sedd eisoes, ar y CT; un sedd heb ei llenwi ers yr Etholiad ym 2008 yn dilyn ymddiswyddiad y Gyng. Hazel Davies. Bu i'r Clerc ddwyn sylw aelodau i arfer da, "Os oes sedd wag yn codi, rhaid i'r Cyngor ei llenwi cyn gynted ag ymarferol phosibl, heblaw fod y gwagle'n codi o fewn 6 mis o fewn Etholiad Cyffredin- Rheol 5(5) Etholiadau Lleol (Plwyf a Chymuned) (Cymru & Lloegr) Rheolau 2006 (S1 2006/3305). Rhaid ymdrechu i gynnal Is-Etholiad." Cynigiodd y Gyngh. Barton i beidio â gwneud trefniadau i lenwi'r seddau ar hyn o bryd. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig. Roedd aelodau o'r farn y byddai'r gost yn ormodol (petai'r nifer o ymgeiswyr yn uwch na 2) a gan gynhelir Etholiadau Cynghorau Lleol ym mis Mai 2012. Y mae polisi i beidio â chyfethol aelodau newydd wedi ei osod mewn lle gan y Cyngor Tref; a lleisiwyd barn yn y gorffennol nad oedd y broses o gyfethol yn ddemocrataidd ; dylai aelodau newydd gael eu hethol gan y cyhoedd. Amlygwyd y difaterwch a ddangoswyd tuag at Etholiadau'r Cyngor Tref gan y Cyngh. Greg Evans. Etholwyd y 14 Cynghorydd presennol, yn ddi-wrthwynebiad ym Mai 2008 gan na ddangoswyd unrhyw ddiddordeb gan y cyhoedd i orfodu cynnal Etholiad. **PENDERFYNWYD** i geisio cynrychiolydd newydd ar gyfer Bwrdd Y Llywodraethwyr Ysgol Ffynnonbedr ac i ddileu gwybodaeth ym ymwneud â'r Gyngh. Mason-George sy'n ymddangos ar y safle ar y we. Is-Bwyllgor Palmantau: un aelod yn llai.

9.2 **Aelodaeth Un Llais Cymru (ULLC)**: **PENDERFYNWYD** i adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2011-12.

9.3 **Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol** ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: ULLC: nodwyd er gwybodaeth.

9.4 **Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:** LLCC: er gwybodaeth.

9.5 **Coedwig Gymunedol Longwood:** yn gofyn am lythyr o gefnogaeth ar gyfer eu cais am gymhorthdal: Y Maer Rob Phillips wedi anfon y llythyr eisoes.

9.6 **Llythyr newyddion ar gyfer busnesau CSC:** er gwybodaeth.

9.7 **Gohebiaeth a dderbyniwyd dan law'r safle ar y we y Cyngor Tref:** nodwyd er gwybodaeth. (y Cyngh. Selwyn Walters i gyflwyno ymateb am gais yn

ymwneud ag adeiladu pont gan Morgan & Morgan); cais arall yn ymwneud ag arwyddion “Tramp”.

9.8 **Pwyllgor Ardal Ceredigion: 31.03.2011:** er gwybodaeth.

9.9 **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru** yn ymgynghori ar Strategaeth drafft Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwasanaeth Cymru 2011-16 ac yn gofyn am barn a sylwadau: er gwybodaeth.

9.10 **Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2011:** ULLC ym Mhafiliwn y Bont ar Ddydd Sadwrn 8fed Hydref 2011: Bydd y Gyngh. Dorothy Williams a’r Darpar Faer yn mynychu’r Cyfarfod. **PENDERFYNWYD** trafod cynigion i’w cyflwyno, yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

9.11 **Posteri ar gyfer Etholiadau’r LLCC ar y 5ed of Fai**: **PENDERFYNWYD** i’w harddangos ar hysbysfwrdd y CT a’r Neuadd Fictoria.

9.12 **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

10. CYNLLUNIO

CANIATÂD CYNLLLUNIO GAN CSC

10.1 **Newid defnydd o** annedd llawr isaf i salon trin gwallt, 72 Stryd y Bont, Llambed. Rhif y Cais A110053

10.2 **Banc HSBC:** newid yr arwyddion presennol a gosod hysbysebu newydd mewn ffenestr. Rhif y Cais A101008AV

10.3 **Adnewyddu y tu mewn** i adeilad HSBC a thynnu’r sêff nos allanol: Rhif y Cais A101007

CEISIADAU CYNLLUNIO

10.4 **Y Bwriad: Estyniad arfaethedig** i’r Ganolfan Hamdden Llambed bresennol: Teras Peterwell, Llambed. Rhif y Cais: A100996CD. Ymateb yr Aelodau: Dim Gwrthwynebiad.

10.5 **Y Bwriad: Estyniad i adeilad presennol** â fframwaith o ddur: Lleoliad: Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed. Rhif y Cais: A110233. Ymateb yr Aelodau: Dim Gwrthwynebiad.

10.6 **Dod o hyd i geisiadau cynllunio ar-lein CSC:** ni ddarperir copiau papur o geisiadau gynllunio ar gyfer ymgyngoreion, yn ystod y dyfodol agos. Bydd y Cyngor Tref yn derbyn ebost yn nodi rhif y cais ac yn rhoi cyfeiriad y ffeil ar y we. Bydd sawl aelod yn medru defnyddio’r ddolen gyswllt honno. **PENDERFYNWYD** ystyried y dichonolrwydd o brynu gliniadur i alluogi aelodau sydd heb gyfleusterau ebost i archwilio ceisiadau cynllunio’n electronig.

10.7 **Sylwadau ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion –** yr ymgynghori ynghylch y Fersiwn Adneuo: CSC: yn cydnabod derbyn sylwadau gan y CT, ynghylch ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Ceredigion (Rhagfyr 2010). Ymgynghoriad a gwybodaeth parthed Arfarniad o Gynaliadwyedd.

11. MENTER LLAMBED & TRANSITION LLAMBED

Adroddodd y Cyng. Greg Evans fod y Brydles Ddrafft wedi ei derbyn a disgwylir arwyddo’r Brydles yn ystod yr wythnos ganlynol. Gobeithir cynnal nifer o weithgareddau yn y Neuadd a’i bod yn datblygu’n ased gwerthfawr ar gyfer y gymuned. Trefnwyd Asesiad Risg. Cymeradwywyd y prosiect gan aelodau a gobeithient y byddai’n dwyn ffrwyth.

12. CYLLID

12.1

Rhif y Siec	Tâl i:	£
001920	Mr Steve Edwardes – trwsio offer ym Mharc-yr-Orsedd a bolltio'r meinciau/byrddau i'r llawr yng nghae Maesyderi	£175.00
001921	Arwydd newydd ar fynedfa o Gwmann i'r dref – ffin Ceredigion Sir Gâr:	£947 TAW £165.74 CYFANSWM £1,112.84
001922	Hurio neuadd San Pedr –cyfarfod 24.02.2011	£18.75
001923	Cyflenwyr Plwmwaith Ceredigion Cae Maesyderi	£8.51 TAW £1.70 CYFANSWM £10.21
001924	Cyflog y Clerc 2011 i gynnwys 2awr ychwanegol oherwydd oblygiadau cyfieithu yn ymwneud â Chae Maesyderi.	£597.02
001925	Cyllid a Thollau EM Mawrth 2011	£68.10
001926	Costau gwres/Golau/Storio/ Clerc Mawrth 2011	£20.00
001927	Eryl Jones – Yswiriant Ieuanc mewn Ysbryd	£243.25
001928	Mr Harold Williams DJ Ysgol Ffynonbedr Disgo 14.04.2011	£60.00
001929	Trosglwyddo i Fanc Barclays oddi wrth y Banc Lloyds TSB (2% llog = £700/flwyddyn)	£35,000.00
001930	Compass Stationery Llambed: brother- drwm ar gyfer yr argraffydd. Inc ar gyfer y llungopiwr	£145.30 TAW £29.06 CYFANSWM £174.36
001931	Adnewyddu Aelodaeth Un Llais Cymru	£289.00
001932	Siec wedi ei ddileu-camgymeriad	£0
001933	Cyngor ar Bopeth	£500
001934	Siec wedi ei ddileu-camgymeriad	£0
001935	CFFI Y Dderi	£50.00
001936	Ffagl Gobaith Gofal Hospis	£200.00
001937	Eisteddfod Gŵyl y Banc Pantyfedwen, Llambed	£1,000.00
001938	Mencap Cymru	£25.00
001939	Cynhadledd Un Llais Cymru 2011	£130.00
001940	Hurio Neuadd Fictoria – Te Ieuanc Mewn Ysbryd	£75.00
001941	Hurio Neuadd yr Eglwys Cyfarfod y CT 31.03.2011	£22.50
001942	Apêl y Cerrig Beddau	£110.00 (£41.00 yn weddill wedi ei dalu'n syth i gronfa'r Eglwys)
001943	Stampiau - Clerc	£48.41
001944	Cyflwyniad y Parth Di-Alcohol	£1,619.39

12.2 **£2,854.82 wedi ei drosglwyddo o'r C/A Abertawe i'r Banc Lloyds TSB**

12.3 **Llythyr gan** Glwb Ffermwyr Ifainc Ceredigion yn diolch i'r CT am ei haelioni a chefnogaeth.

12.4 **Derbyniadau: £110 –** Apêl y Cerrig Beddau (cofnod dwbl)

13. IS-BWYLLGORAU

13.1 PALMANTAU

13.1.1 PENDERFYNWYD adrodd y namau canlynol ar balmantydd y dref at sylw'r CSC: tu allan i'r Siop a arferai dwyn yr enw Stewart Seconds ger y Tlysydd Lloyd; Palmantau ar Stryd y Coleg; twll yn yr heol – Teras yr Orsaf a'r palmant ar Heol y Wig.

13.1.2 Cais i'r CSC i asesu holl balmantau'r dref oherwydd y difrod rhew diweddar; llythyr oddi wrth Mr John Edwards, Adran y Priffyrdd, CSC adroddwyd bod y palmantau'n cael eu harchwilio ar yr un adeg â'r heolydd a ganlyn:

- **Priffyrdd hy Y Stryd Fawr a Stryd Bont** ayyb yn cael eu harchwilio bob pedair wythnos;
- **Ffyrdd Eraill hy Bryn-yr-Eglwys;** Teras Greenfield yn cael eu harchwilio bob 12 wythnos.

Nid yw'r CSC yn gweld yr angen i newid y patrwm ac i ymwneud ag asesiadau ychwanegol.

13.2 LLWYBRAU CERDDED

13.2.1 Cynigion parthed cynnal a chadw llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Llwybrau cerdded: **61**-14, 15, 16, 17, 18, 20 & **62-**6, 7, 8, 9, 10, 11.,14. Y Contractwyr i ddyfynnu'r raddfa ddyddiol. Dyddiad cau 31 Mawrth 2011. Hysbysebion wedi eu harddangos ar yr Hysbysfwrdd ac ar wefan y CT.

Derbyniwyd 2 dyfynbris sef

- **Mr Stuart Legg: Superior Landscapes, Rhydygwin, Parc-y-Rhos, Cwmann £78 yn feunyddiol;**
- **Mr Eirwyn Williams, Blodfryn, Heol Y Bryn, Llambed £90 yn feunyddiol.**

Yn y gorffennol y mae'r gwaith a wobrwywyd i gontractwyr wedi ei seilio ar delerau'r grant CSC i Gynghorau Traf a Chymuned ar gyfer Torri Prysgwydd. Cyllideb eleni £1,020 (CSC grant 50% £510; Cyngor Tref £510)
Cynigiwyd gan y Cyngh. Selwyn Walters, eiliwyd gan y Cyngh. Kistiah Ramaya a **PHENDERFYNWYD** i dderbyn cynnig Mr Legg o £78 (yn feunyddiol), am 13.5dydd. **PENDERFYNWYD** i fonitereiddio cyflwr y llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Hoffai aelodau nodi safon uchel y gwaith yr ymgymerwyd gan Mr Eirwyn Williams ar y llwybrau cerdded, yn ystod y gorffennol.

13.2.2 Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion Adroddiad Blynyddol 2010: Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yw'r corff statudol a sefydlwyd gan y Cyngor Sir yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Swyddogaeth y Fforwm yw gwella mynediad y cyhoedd at dir at ddibenion a mwynhad yn yr awyr agored: at sylw'r aelodau'r Is-bwyllgor y Llwybrau Cerdded.

13.3 PARC-YR-ORSEDD

13.3.1 Argymelliadau fel y crybwyllwyd gan Digley Associates yn ystod eu harolwg Hydref 2010 (Atodiad 3) yn mynd yn eu blaen.
PENDERFYNWYD Cyng. Chris Thomas i gysylltu â Chyflenwyr yr Offer Fit-Trail i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt drwsio'r offer ymarfer corff.

13.3.2 Cynigion – Torri Gwair ym Mharc-yr-Orsedd
Disgrifiad o'r Gwaith: cynigion ar gyfer torri gwair ym Mharc-yr-orsedd o Ebrill tan fis Medi (i gynnwys y 2 fis yma) – 2 doriad y mis; toriadau gwair i'w symud o'r safle ac i gasglu sbwriel. Dyddiad Cau 31 Mawrth 2011. Hysbysebion wedi eu harddangos ar yr Hysbysfwrdd ac ar wefan y CT.
Derbyniwyd 2 dyfynbris sef

- **Mr Stuart Legg: Superior Landscapes, Rhydygwin, Parc-y-Rhos, Cwmann £498 i gynnwys 2 doriad y mis gan ddechrau ym mis Ebrill a gorffen ym mis Medi, ac i gasglu holl sbwriel cyn dechrau torri'r gwair a'r defnydd o strimer i dorri o gwmpas rhwystrau ac i waredu â'r toriadau gwair o'r safle. Insiwrans Atebolrwydd Cyhoeddus mewn lle.**
- **Mr Eirwyn Williams, Blodfryn, Heol Y Bryn, Llambed £1,086 i gynnwys 2 doriad y mis gan ddechrau ym mis Ebrill a gorffen ym mis Medi, ac i waredu â'r toriadau gwair o'r safle; casglu sbwriel o leiaf 4 gwaith yr wythnos; arolygu/asesu'r parc am fandaliaeth a difrod ac eu hadrodd yn ôl yr angen.**

Cynigiwyd gan y Cyngh. Carter, eiliwyd gan y Gyngh. Barton a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol (un ymataliad) i dderbyn cynnig Mr Eirwyn Williams, yn wyneb yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol sydd wedi bod yn nodwedd gyffredin o'r parc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn sgîl hynny, y consyrn a fynegwyd gan drigolion parthed y mater. **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod ynghynt i gyflogi gofalwr ar gyfer y parc; byddai cynnig Mr Williams yn cwmpasu y gofynion yn ymwneud â hyn.

13.3.3 Her Meysydd Brenhines Elisabeth 11: Meysydd Chwarae Cymru: Prosiect Cymynrodd Newydd Meysydd Chwarae Cymru (Fields in Trust) sydd yn cael ei arwain gan y Tywysog Wiliam i ddynodi Jiwbilî Deimwnt Ei Mawrhydi'r Frenhines a Gemau Olympaidd Llundain 2012. Nod y rhaglen yw diogelu 2012 o safleoedd hamdden awyr agored – Meysydd Brenhines Elisabeth 11 – ar gyfer cymunedau ar draws y DU erbyn 2012. Mae'n bosibl i unrhyw gyngor, mawr neu fach, i gymryd rhan yn yr Her drwy enwebu safle hamdden i'w gynnwys yn y rhaglen ac mae pob math o fannau awyr agored yn gymwys gan gynnwys man awyr agored bach/anffurfiol; parciau; meysydd chwarae i blant; ardaloedd bywyd gwyllt/coetir/llwybrau natur; llwybrau i feiciau; meysydd chwarae; mannau awyr agored o fewn datblygiadau newydd. Bydd Meysydd Brenhines Elisabeth 11 hefyd yn medru cael mynediad at gyllid i greu gwelliannau. **PENDERFYNWYD i** enwebu'r Parc-yr-Orsedd fel safle posibl o fewn y 2012 o safleoedd.

13.4 CAMERAU TCC
Adroddiad misol Chwefror: 2011: bu yna 4 cais gan yr heddlu i archwilio deunydd digidol, un cais am un "llonydd" a 3 cais am ddisgiau copi yn ymwneud â difrod troseddol (dyddiad y digwyddiad 23.01.11); gosod trefn ar

aelodau'r cyhoedd (12.02.2011) a bwrglwriaeth wedi ei chythruddo. (12.02.2011).

13.5 YR IAITH GYMRAEG
Gwahoddir sylwadau yn ymwneud â'r Adolygiad gan aelodau'r cyhoedd – dim ymatebion cyn belled.

13.6 RHEOLI CAE MAESYDERI
(Cyfarfod o'r 23.03.2011):cofnodion ynghlwm.

14. U.F.A.

14.1 Cinio Gorffen Tymor y Maer: Dyddiad: Dydd Llun 18fed o Ebrill am 7.30pm yng nghwesty'r Llew Du, Llambed.

14.2 Bu i'r Gyngh. Margaret Davies-Evans ddwyn sylw aelodau i'r broblem rhwystro traffig ar y Cwmin.

14.3 Mynegwyd pryder gan y Cyngh. John Davies parthed ceir wedi eu parcio yn ardal Kingsmead a'r Stryd Newydd a'r "bygythiad difrifol i ddiogelwch ar y ffordd". Y mae ceir wedi eu parcio i fyny at y cyffordd ar y ddwy heol ac "yn ddamwain ar ddigwydd". Y mae'r stryd Teras Teifi'n cysylltu'r ddwy heol sef Kingsmead a'r Stryd Newydd. **PENDERFYNWYD:** Y Cyngh. Hag Harris i adrodd y mater a 14.2 at sylw'r heddlu. Erfynnir ar aelodau i ddwyn materion plismona at eu sylw yn ystod yr amser a glustnodir ar eu cyfer o fewn yr Agenda.

14.4 Adroddwyd y byddai'r Canon Aled Williams yn ymddeol cyn bo hir yn ei swydd o offeiriad Eglwys San Pedr, Llambed ar ôl cyfnod o ddeg blynedd. Y mae wedi cymryd arno ei hun y swydd o Gaplan y Maer ar nifer o adegau. Y mae cyfraniadau'n cael eu derbyn.

14.5 Cynhelir Gwasanaeth Sifig y Maer ar Ddydd Sul 15fed o Fai am 10.30am yn Eglwys San Pedr, Llambed.

14.6 Cymdeithas Efeillio Llambed: yn cynnal noswaith o *Gaws a Gwin* ar Nos Wener 29ain o Ebrill yng ngwesty'r Llew Du, Llambed.

14.7 Dyddiad Ffair Fwyd Llambed: Dydd Sadwrn 23ain Gorffennaf 2011.

14.8 Cyhoeddodd y Maer Rob Phillips ei ddyweddiad â Miss Delyth Morgans. Bu i'r Dirprwy-Faer Hag Harris estyn dymuniadau gorau'r aelodau i'r ddau ohonynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.05pm.

15. DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF

15.1 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI: DYDD MERCHER 20 EBRILL AM 6.30PM: SWYDDFA MENTER LLAMBED;

15.2 CYFARFOD MISOL 28 EBRILL 2011 AM 7.30PM YN NEUADD YR EGLWYS, LLAMBED.

----------(arwyddwyd a dyddiad)